Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin y Gurnos
Cedar Way
Stad Gurnos
Merthyr Tudful
CF47 9PA

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Gorffennaf 2012**

**gan**

**Mr Peter Mathias**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/09/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Feithrin y Gurnos gyda 92 o ddisgyblion ar y gofrestr o oedran tair i bedair blwydd oed ar stad fawr o dai cyhoeddus ar gyrion gogleddol Merthyr Tudful, yn yr awdurdod lleol o'r un enw. Gwasanaetha'r ardal leol ble ceir lefelau uchel o amddifadiad lluosog a diweithdra. Daw'r mwyafrif o ddisgyblion o gefndir difreintiedig. Ystyrir bod pum deg pump y cant yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn llawer uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae gan un disgybl Saesneg fel iaith ychwanegol ac nid oes gan yr un disgybl y Gymraeg fel iaith y cartref. Mae bron pob un o gefndir gwyn, Prydeinig. Mae 14 y cant wedi eu hadnabod fel bod ganddynt rywfaint o anghenion dysgu ychwanegol, bron pob un ar gyfer anawsterau lleferydd a chyfathrebu. Nid oes yr un disgybl yn derbyn cymorth gan wasanaethau allanol neu a bod ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni waharddwyd yr un disgybl y flwyddyn flaenorol ac mae un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Yn ystod yr arolygiad roedd pedwar aelod o staff llawn amser yn absennol, dwy ohonynt ar gyfnod mamolaeth. Cymerwyd eu lle gan staff dros dro. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr haf 2006.

Mae'r gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Feithrin y Gurnos yn £4,239 sy'n cymharu gyda chyfartaledd cenedlaethol o £5,986 ar gyfer pob ysgol feithrin a gynhelir yng Nghymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- safonau a chynnydd yn dda;
- y cwricwlwm yn arloesol ac yn gyffrous;
- y bartneriaeth gyda rhieni a gofalwyr yn ardderchog;
- bod ansawdd yr addysgu yn ardderchog;
- y rhoir sylw da iawn i safbwyntiau'r disgyblion; ac
- ansawdd uchel iawn a maint hael yr adnoddau dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod :

- safonau wedi cael eu codi'n gyson ac arwyddocaol o flwyddyn i flwyddyn;
- arweinyddiaeth y pennaeth yn ddeinamig;
- yr holl staff yn ymrwymedig iawn i ddatblygiad pellach;
- partneriaethau proffesiynol cryf gydag ysgolion eraill a chyrff addysgol; a bod
- hunan arfarnu yn rymus ac yn fanwl gywir.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i ysgol Feithrin y Gurnos:

A1 adolygu effaith strategaethau i godi lefelau presenoldeb a chymryd camau ymhellach i godi safonau; a

A2 datblygu ymhellach fentrau i wella perfformiad bechgyn o'u cymharu â'r Merched.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Gwahoddir yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig i Estyn i ddisgrifio'r arferion rhagorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Ardderchog**

Mae medrau cyfathrebu yn rhagorol. Medda'r holl ddisgyblion fedrau gwrando hynod o dda ac ymatebant yn dda i orchmynion a chyfarwyddyd mewn ystod o amgylchiadau. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn eglur iawn ac yn esbonio eu hatebion yn llawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu medrau darllen cynnar gyda lleiafrif yn adnabod geiriau cyffredin. Deallant fod gan brint ystyr a gwyddant y gwahaniaeth rhwng testun a lluniau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu da iawn o ysgrifennu allddodol i ffurfio llythrennau yn gywir. Defnyddiant y medrau hyn yn effeithiol i labelu eu lluniau ac i ysgrifennu eu henwau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol mewn rhifedd ac yn gallu cyfrif yn fanwl gywir mewn sefyllfaoedd real. Trefnant rhifau gan gydweddu un i un yn fanwl gywir.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhagorol. Defnyddia pob un o'r disgyblion byrddau gwyn rhyngweithiol, teganau robotig ac offer trydanol yn hyderus. Maent yn gyfarwydd ag ystod o becynnau meddalwedd ac yn dewis y rhaglenni maent eu hangen yn annibynnol.

Mae medrau creadigol yn ardderchog. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau o waith o ansawdd hynod o uchel mewn ystod o gyfryngau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cychwyn eu haddysg statudol gyda safonau yn y medrau sylfaenol sydd yn llawer is na'r hyn ddisgwylir am eu hoedran. Erbyn diwedd y flwyddyn yn yr ysgol mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni lefelau sydd yn uwch ac weithiau llawer uwch na'r rhai a ddisgwylir gan blant pedair blwydd oed. Mae cryfderau penodol yn cynnwys y cynnydd wnânt mewn llefaredd a datblygiad personol, cymdeithasol a chorfforol.

Mae safonau yn natblygiad yr iaith Gymraeg yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb i gyfarwyddyd ac yn defnyddio geiriau Cymraeg yn naturiol ar gyfer lliwiau a rhifau. Dechreuant ddarllen ac ysgrifennu geiriau unigol gan ddefnyddio llyfrau siarad. Mae pob un yn ymwybodol o'r iaith Gymraeg a meddant agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ei siarad. Mae ei hymwybyddiaeth o fod yn Gymry yn datblygu'n dda.

**Lles: Rhagorol**

O ystyried eu hoedran, medda'r mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth ragorol o'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i dyfu fyny i fod yn oedolyn iach. Maent yn ymwybodol bydd yn rhaid iddynt fwyta'n synhwyrol, gwneud ymarfer corff ac yfed digon o ddŵr.

Mae presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac mae cyfran y disgyblion yn cyrraedd presenoldeb 100% yn cynyddu. Fodd bynnag, mae lefelau yn parhau'n isel, ar gyfartaledd tua 85% ar gyfer blwyddyn academaidd 2011-2012. Mae rhai disgyblion yn hwyr yn cyrraedd.

Gwna disgyblion gynnydd rhagorol yn eu medrau personol a chymdeithasol. Dwedant y teimlant y cânt ofal da a deallant yr angen i ddilyn rheolau, yn enwedig yn yr ysgol goedwig, er mwyn cadw'n ddiogel. Datblyga eu hunan hyder yn dda iawn ac maent yn gwrtais iawn a'i gilydd ac ag oedolion. Maent yn gyfeillgar ac yn chwarae a gweithio yn dda iawn gyda'i gilydd. Mae eu hymddygiad yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol yn rhagorol. Ni fu gwaharddiadau.

Mae cyngor yr ysgol, gaiff ei arwain yn sensitif iawn gan aelod o staff, yn darparu llais cadarn iawn ar gyfer y disgyblion. Gwrandewir a gweithredir ar eu hawgrymiadau ar sut i wneud yr ysgol yn fwy o hwyl.

Medda pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gweithgareddau ysgol a dangosant ymglymiad di-ball yn eu gwaith a'u chwarae. Mae bron pob un yn gwneud dewisiadau gwybodus o ystod o weithgareddau ac yn aml maent yn gweithio'n annibynnol am gyfnodau maith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynllunio cwricwlwm arloesol a chyffrous iawn sydd yn ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio ac yn cydweithio gyda'i gilydd yn agos iawn i sicrhau y cynhwysir pob agwedd o'r cwricwlwm. Seilir y gwaith o amgylch themâu eang sydd yn llawn dychymyg, yn ddyfeisgar ac wedi eu cynllunio'n ofalus i sicrhau eu bod yn adeiladu yn llwyddiannus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n bodoli.

Caiff disgyblion eu grwpio mewn un o dri dosbarth cyfochrog a diwallir anghenion unigol yn effeithiol trwy rhai grwpiau yn cael eu tynnu allan ar gyfer dibenion penodol.

Cysylltir y nifer o dripiau ac ymweliadau â'r themâu ac yn aml gweithredant fel man cychwyn i ysgogi dysgu. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan ymweliadau gan oedolion, fel artistiaid , storïwyr a grwpiau theatr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn rhagorol. Cynllunnir yr holl fedrau yn systematig a chânt eu cyflwyno yn effeithiol trwy amrediad eang o weithgareddau ymarferol. Rhydd hyn gyfleoedd i'r disgyblion i ymarfer a chyfnerthu eu dysgu mewn ffyrdd ystyrlon.

Darparir gwaith cartref yn rheolaidd ac mae'n cefnogi gwaith yr ysgol. Mae gan bob disgybl lyfrau gwaith cartref ac fe gwblheir gwaith yn wythnosol.

Ceir darpariaeth dda i hyrwyddo datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae pob athro yn clustnodi digon o amser i ddysgu Cymraeg, yn ogystal â hybu ei defnydd yn achlysurol. Mae cynlluniau gwersi yn nodi cyfleoedd i hyrwyddo dwyieithrwydd, tra bod mentrau fel 'Helpwr Heddiw' a Chymraeg achlysurol yn cynorthwyo i hyrwyddo ei defnydd. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn amlwg ymhob dosbarth a medda'r disgyblion synnwyr cadarn o fod yn Gymry.

Darpara'r ysgol sail ragorol i ddisgyblion i gaffael dealltwriaeth o bwysigrwydd gwarchod ac ail ddefnyddio adnoddau'r ddaear. Caiff y disgyblion gyfleoedd hynod i ddysgu am bobl eraill mewn gwahanol rannau o'r byd. Ar hyn o bryd mae ganddynt gysylltiadau cadarn iawn gydag ysgol ym Motswana a chartref i blant yng ngwlad Pwyl.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol. Medda pob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o sut i addysgu disgyblion o'r oedran hwn. Mae gan bob un ddisgwyliadau uchel iawn ac addysgant gyda dawn a dychymyg.

Ar draws yr ysgol mae athrawon yn esbonio'n glir beth faent angen i'w disgyblion ei gyflawni yn yr amser sydd ar gael. Ymestynnant addysg eu disgyblion trwy ofyn cwestiynau sydd wedi eu llunio'n ofalus iawn a thrwy wneud awgrymiadau cynnil. Cryfder arbennig yw'r modd mae'r holl athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio yn agos ac yn effeithiol iawn gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion unigolion. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar y cynnydd wna pob disgybl.

Mae cyfundrefnau helaeth yr ysgol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion yn rymus, manwl ac yn effeithiol iawn wrth drwytho cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu trwy'r ysgol yn rhagorol. Defnyddir strategaethau i annog hunan arfarnu yn gyson trwy'r ysgol ac mae disgyblion yn trafod amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant gyda hyder. Maent ynghlwm yn llawn yn eu dysgu a gosodant dargedau realistig ochr yn ochr â staff i symud eu dysgu ymlaen.

Mae pob rhiant yn derbyn asesiad cychwynnol yr ysgol o'r hyn mae eu plant yn ei gyflawni. Mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn blynyddol yn llawn gwybodaeth ac yn glir ac yn fanwl gywir yn nodi cynnydd unigol. Maent hefyd yn cynnig cyngor da i gynorthwyo gwelliant pellach.

Mae'r ysgol yn annog pob rhiant i drafod cynnydd eu plant unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol.

Ceir rhaglen o waith penigamp i sicrhau pob agwedd o iechyd , gan gynnwys iechyd meddwl ac iechyd emosiynol.  Mae trafodaeth yn datblygu hyder a hunan barch disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Ceir polisïau sydd wedi eu cynhyrchu'n dda iawn sy'n rhoi cyfarwyddyd clir ymhob agwedd o iechyd, gan gynnwys addysg rhyw briodol o ran oedran a chymorth cyntaf.

Gwna'r ysgol gryn ymdrech i hybu presenoldeb da.  Dengys cofnodion y dadansoddir yn fanwl iawn bresenoldeb pob dosbarth yn fisol a gweithia'r ysgol yn agos iawn gyda'r holl asiantaethau parthed iechyd a diogelwch plant, gan gynnwys y swyddog lles addysg.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ac effeithiol iawn gyda'r asiantaethau allanol perthnasol, sydd o fudd i'r disgyblion.  Arloesodd yr ysgol wasanaeth swyddog lles addysg yr awdurdod lleol i weithio gyda rhieni i hyrwyddo presenoldeb da, er bod disgyblion o dan yr oedran ysgol statudol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd dda o'r ysgol.  Cryfderau arbennig yw'r defnydd o adnabod cynnar, gweithdrefnau asesu a monitro i adnabod disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol.  Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol i godi cyrhaeddiad disgyblion.  Ceir darpariaeth sydd wedi ei chynllunio'n briodol ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy galluog.

Mae cynlluniau cyrhaeddiad unigol, ynghyd â bocsys herio'r disgyblion mwy galluog a thalentog ar gyfer y cartref a'r ysgol, yn diwallu anghenion disgyblion yn dda.  Mae cynlluniau chwarae unigol yn cynnwys targedau clir, realistig sy'n cefnogi cynnydd disgyblion yn effeithiol.  Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol cymwys a phrofiadol, athrawon dosbarth a rhieni yn adolygu a gwerthuso'r cynlluniau yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth arbennig i rieni, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.  Mae pob aelod o staff yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac fel canlyniad yn cynnig cefnogaeth helaeth sydd wedi ei thargedu'n dda ar gyfer pob disgybl.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Medda'r ysgol ethos ofalgar a chynhwysol rhagorol ble y caiff disgyblion a staff eu parchu'n fawr a chânt eu gwerthfawrogi.

Medda pob un o'r disgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac fe'u hanogir i gyfrannu eu syniadau'n rhydd.  Tan ategir yr ethos gan egwyddorion o hawliau sylfaenol ar gyfer pob plentyn, gwerthoedd teuluol ac amcanion craidd.

Mae pob aelod o staff yn annog disgyblion yn frwdfrydig i ddathlu gwahaniaethau ac i herio rhagdybiaethau. Teimla'r disgyblion yn ddiogel ac maent yn gwybod y bydd oedolion yn delio gyda'u pryderon yn gyflym.

Gwneir defnydd rhagorol o ystod eang iawn o adnoddau ansawdd uchel sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r ysgol y darparu digon o le ar gyfer y disgyblion sydd ar y gofrestr. Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda iawn a gwneir defnydd rhagorol o bob ardal sydd ar gael gan gynnwys ardal goediog fechan. Mae'r ystafell synhwyraidd a'r sgubor yn adnoddau rhagorol a ddefnyddir yn dda iawn gan bob dosbarth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn rhagorol. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad deinamig a meddylgar. Mae ganddi weledigaeth glir iawn am yr ysgol a gwerthfawrogiad wedi ei drwytho'n dda iawn o sut i ddiwallu anghenion cyffredinol disgyblion.

Gweithia pob aelod o staff yn adeiladol iawn gyda'i gilydd ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'i gilydd. Rhannant eu harbenigedd a'u profiad yn llwyddiannus iawn. Parhânt i ddatblygu eu medrau er mwyn darparu'r gorau ar gyfer eu disgyblion.

Medda'r uwch dîm rheoli dealltwriaeth dda iawn o anghenion yr ysgol i'r dyfodol a chynlluniant yn rymus i'w diwallu. Nodwedd arbennig o gryf yw'r pwyslais a roir ar fonitro safonau a'r cynnydd a wna disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn arbennig wrth sefydlu medrau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cafodd yr ysgol lwyddiant mawr wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda ac fe y'i harweinir yn dda gan gadeirydd ac is-gadeirydd, ac mae'r ddau yn ymwneud â staff yn rheolaidd. Medda'r llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o sut mae'r ysgol yn perfformio. Gweithiant yn llwyddiannus iawn gyda'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli fel cyfeillion cefnogol ond beirniadol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn rhagorol. Mae'r ysgol yn rymus yn dadansoddi data perfformiad yn effeithiol iawn ac yn adnabod tueddiadau perthnasol a chynnydd dros amser. Mae arsylwadau dosbarth uniongyrchol, gwrando ar ddisgyblion a chraffu ar waith disgyblion yn galluogi'r ysgol i fonitro a gwerthuso dysgu disgyblion yn rymus ac yn fanwl gywir.

Mae arfarniad ansawdd uchel y pennaeth o safonau addysgu a'i hymdriniaeth arloesol i arsylwi dosbarthiadau yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau rhagorol o addysgu.

Mae gweithdrefnau hunan arfarnu yn cymryd sylw da o safbwyntiau disgyblion a rhieni. Prif nodwedd gadarn yw'r modd y mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i'r gynhaliaeth a'r her a ddarperir gan adroddiadau monitro'r awdurdod lleol.

Defnyddir gwybodaeth o hunan arfarnu yn effeithiol iawn i ddatblygu a blaenoriaethu cynlluniau sydd â ffocws clir ar wella medrau. Cynnwys y cynlluniau ystod briodol o weithredoedd perthnasol, graddfa amser sydd wedi eu diffinio'n dda ar gyfer cwblhau ac adnoddau i'w dyrannu.

Mae'r ysgol wedi bod yn effeithiol iawn i sicrhau gwelliannau dros amser. Mae wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae'r pennaeth a'r staff ynghlwm yn weithredol gydag ystod eang o gymunedau dysgu proffesiynol tu fewn a thu allan i'r ysgol, sy'n galluogi staff i rannu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol ac yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gwaith arloesol yr ysgol yn gwrando ar ddysgwyr ifanc yn benigamp.

Mae'r pennaeth yn cyfrannu'n lleol at hyfforddi athrawon ac mae'n rhannu arfer rhagorol yn rheolaidd gyda gweithwyr proffesiynol eraill o'r ardal leol agos, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd arbennig o'r ysgol.

Mae partneriaethau rhagorol wedi eu sefydlu'n dda gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r dyddiau 'dysgwch gyda fi' yn effeithiol iawn ac mae rhieni yn gadarnhaol iawn am eu gwerth. Mae'r cynllun 'Gwerthoedd y Teulu' yn hynod lwyddiannus ac yn annog y rheini i ymgymryd â gweithgareddau buddiol gyda'u plant gartref.

Mae'r pennaeth hefyd yn rheoli dau leoliad cyn ysgol ac yn gweithio'n agos gyda hwy i sicrhau pontio rhwydd i'r ysgol feithrin. Rhennir asesiadau yn gynnar a chynorthwya hyn y disgyblion i adeiladu'n llwyddiannus ar yr hyn maent eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Mae cyfleoedd i rannu adnoddau yn cynorthwyo i sicrhau cysondeb rhwng y lleoliadau. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol iawn ac yn nodwedd ragorol o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhannu enghreifftiau o arfer da gydag eraill yn rheolaidd. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o athrawon a swyddogion addysg wedi ymweld â'r ysgol i arsylwi gwaith yr ysgol. Yn ychwanegol mae nifer o athrawon wedi cyfrannu at raglenni hyfforddi o fewn yr awdurdod.

Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ar gyfer myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch. Caiff ei rôl yn cefnogi'r myfyrwyr a'r rhai dan hyfforddiant ei werthfawrogi'n fawr gan y

sefydliadau hyn.  Mae cysylltiadau rhagorol gydag ystod eang iawn o asiantaethau allanol i gefnogi lles emosiynol a chorfforol y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Medda'r athrawon wybodaeth bynciol ragorol i ddysgu'r oedran hwn.  Gwerthfawrogir yn fawr y staff cymorth a gweithiant yn dda iawn fel rhan o'u timau.

Trefnir adnoddau addysgu yn dda iawn i gefnogi gweithgareddau tu fewn a thu allan. Gwneir defnydd da iawn o bob ardal sydd ar gael.  Mae'r ychwanegiad diweddar o ardal chwarae fawr fewnol yn darparu pontio rhagorol o'r ardal tu allan i'r ardal tu fewn a chaiff ei defnyddio'n dda i ddatblygu medrau corfforol.

Mae'r ysgol wedi adolygu ei strwythur rheoli er mwyn gweithredu'n llawn y cytundeb gwaith.   Mae trefniadau i ddarparu amser i athrawon i gynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol iawn a gwneir defnydd da iawn o'r amser hwn.

Mae'r ysgol yn cwrdd â'i gofynion statudol ynglŷn â rheoli perfformiad.

Mae'r ysgol yn defnyddio symiau arian ychwanegol o fenter Cymunedau'n Gyntaf yn effeithiol iawn i ariannu prosiectau mawr fel yr ardal chwarae newydd.  Blaenoriaethir a monitrir y gyllideb yn ofalus.

O ystyried y cynnydd rhagorol a wneir gan bron pob un o'r disgyblion a nifer o nodweddion arbennig yr ysgol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar hyn o bryd nid oes data cymharol genedlaethol dibynadwy ar gael i ddangos safonau a chynnydd disgyblion yn yr ysgol. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r ysgol wedi cadw'n rymus asesiadau a adeiladwyd yn ofalus o fedrau sylfaenol disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol a chyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Seilir y rhain yn bennaf ar ddata a gasglwyd trwy fenter yr awdurdod lleol ac yn ddiweddar trwy'r prosesau asesu gwaelodlin genedlaethol gychwynnol.

Mae tueddiadau yn awgrymu bod nifer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau isel o fedrau sylfaenol bron ymhob ardal o ddatblygiad. Mae medrau mewn siarad, cyfathrebu a datblygiad cymdeithasol yn arbennig o isel. Cymysg yw datblygiad corfforol disgyblion gyda llawer yn is na'r norm yn eu medrau manwl wrth drafod a thrin.

Erbyn diwedd y flwyddyn yn yr ysgol mae bron pob un wedi gwneud cynnydd da iawn. Mae gan bron pob un lefel o ddatblygiad cymdeithasol a lles sydd yn uwch na'r rhai a ddisgwylir gan blant pedair blwydd oed. Mae eu medrau meddwl a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn dda iawn. Gwnânt gynnydd da yn eu siarad â'u gwrando. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn llai amlwg, o ystyried eu man cychwyn. Ymhob ardal o ddatblygiad corfforol gwnânt gynnydd arbennig, yn aml yn gweithredu ar lefelau disgwyliedig o blant chwech oed.

Dros amser mae asesiadau yn dangos nad yw bechgyn yn perfformio cystal â merched bron ymhob un o'r ardaloedd a aseswyd. Fodd bynnag, dros yr amser byr a dreuliwyd yn yr ysgol, mae'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn llai ar ddiwedd y flwyddyn nac oedd ar y cychwyn. Mae'r ysgol yn adnabod yn gyflym disgyblion a ystyrir yn fwy galluog a thalentog a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol arwyddocaol. Gwna'r cyfan o leiaf gynnydd da ac ar adegau gynnydd da iawn.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cwblhaodd saith deg o rieni'r holiadur. Roedd gan bron pob un farn gadarnhaol am yr ysgol. Roedd pob un yn fodlon â'r ysgol, yn teimlo bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn cael help i ymsefydlu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol.

Teimla pob rhiant bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Meddylient fod eu plant yn ymddwyn yn dda ac yn cael eu haddysgu'n dda. Roeddent yn credu bod gan staff ddisgwyliadau uchel o'u plant i weithio'n galed ac i wneud eu gorau. Dywedasant fod y gwaith cartref a roddir yn gymorth i'w dysgu.

Mae gan bob rhiant farn gadarnhaol am y ffordd roedd eu plant yn cael eu trin. Credant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd. Roeddent yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cymorth priodol.

Dywedodd pob un rhiant eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac roeddent yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu gwynion. Meddyliant fod eu plant yn cael cymorth i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae pob un rhiant yn credu bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg ac yn cael profiad o ystod dda weithgareddau, tripiau ac ymweliadau. Roedd pob un yn meddwl bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Roedd ychydig iawn o rieni yn dweud nad oeddynt yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ynglŷn â delio gyda chwynion.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Er na ofynnwyd am farn disgyblion trwy holiadur, yn ystod yr arolygiad trafodasant yn anffurfiol gydag arolygwyr beth roeddynt yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi am yr ysgol.

Mynegodd pob un farn gadarnhaol iawn a theimlant yn hapus iawn ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mwynhânt ddod pob dydd a chwarae gyda'u ffrindiau. Roeddent yn hoffi eu hathrawon a'r cyfleoedd a gânt i ddysgu.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Gill Harrison | Arolygydd Tîm |
| Mrs Rhiannon Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Menna Sweeney | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Judith Stevens | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.